



Pen Blwydd Hapus Ysgol y Lawnt yn 60 mlwydd oed

Ewch i dudalen 5.....



Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Digwyddiadur: Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Neges gan yr Urdd

Shwmae!

Mared ydw i a fi yw Swyddog Ieuenctid yr Urdd newydd yng Nghaerffili. Mae wedi bod yn dymor cyntaf prysur iawn i mi yn fy swydd newydd ers i mi ddechrau ym mis Medi. Yn llawn digwyddiadau, teithiau, a dod i adnabod fy ardal newydd (mae'r map wedi dod allan sawl gwaith!). Dyma rai o'r uchafbwyntiau dros y misoedd diwethaf.

Rydyn ni wedi llenwi ein taith flynyddol i Barc Disneyland yn mis Chwefror, gyda dros 40 o bobl ifanc yn barod am wyliau ar ddechrau'r hanner tymor! Mae yna daith yn mynd i Gatalonia ym mis Gorffennaf, ar gyfer blwyddyn 9 a 10, am fwy o wybodaeth cysylltwch a maredjones@urdd.org.

Mae Aelwyd Cwmffili wedi ail-ddechrau – mae'r aelwyd yn cwrdd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni – Safle'r Gwyndy yng Nghaerffili bob nos Fercher 3.30-5.30 – gan wneud amryw o weithgareddau, o goginio i gelf a chrefft, croeso i bawb!

Roeddwn i'n ddigon ffodus eleni i fynd ar daith yr Urdd i Batagonia. Pythefnos llawn hwyl, diwylliant a chyfarfod a Chymry yr Ariannin. Roedd hi'n daith fythgofiadwy, ac mae'n wlad arbennig. Mae'n daith flynyddol i'r Urdd ac yn gyfle i bobl ifanc dros bob cwr o Gymru i wneud gwaith dyngarol a hybu'r iaith a diwylliant Cymreig allan yn y Wladfa.

Os am unrhyw wybodaeth bellach am waith yr Urdd yn yr ardal, peidiwch ag oedi i gysylltu!

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!!



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Yr Ysgol Gyfun Gymraeg â'r Clwstwr Mwyaf yn y Byd!!!

Daeth Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones i Gaerffili fore Mercher, 9fed o Ragfyr, i agor safle Ysgol y Gwyndy yn swyddogol.



Mae'r safle a fydd, yn y pen draw, yn darparu ar gyfer 1,300 o blant wedi'i chwblhau wedi hir ddisgwyl. Mae'r prosiect £20 miliwn yn darparu lle ar gyfer 400 o blant oed cynradd yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac 900 o blant Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sy'n byw ar waelod y cwm.

Ond nid mantais yw hon ar gyfer y plant a fydd yn derbyn eu haddysg ar y safle yn unig. Oherwydd mae'r datblygiad yn rhyddhau lleoedd yn Gellihaf i blant oed uwchradd o rannau eraill o'r sir. Fe atgoffwyd y sawl oedd

yn bresennol mai hon yw'r Ysgol Gymraeg â'r clwstwr mwyaf o ysgolion yng Nghymru – ac felly yn gallu hawlio mai hi yw'r ysgol Gymraeg â'r clwstwr mwyaf yn y byd!

Ac ni ddylai neb feddwl bod addysg cyfrwng Cymraeg yn derbyn ffafriaeth annheg gan yr awdurdod gan y byddai hyn yn bell iawn o'r gwir. Rhan o fenter "Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain" oedd y prosiect hwn. Roedd y Fwrdeistref Sirol wedi gosod cynlluniau gerbron y Senedd am werth £92 miliwn a dim ond rhan o hwnnw oedd i'w wario ar y Gwyndy. Roedd hyn ychydig dros 20% o'r gwariant a hynny yn cyfateb, mwy neu lai, i'r canran o blant sy'n mynychu'n Hysgolion Cymraeg yn y sir.

Pan lansiwyd y cynllun roedd y Senedd i dalu dwy ran o dair o'r gwariant ond, am na dderbyniwyd y cais gwreiddiol, bu'n rhaid ail-ymgeisio yn yr ail rownd. Erbyn hynny roedd cyfraniad y Senedd i lawr i hanner cant y cant a'r cyngor felly yn gorfod dod o hyd i £16 miliwn ychwanegol. A hynny ar gyfnod o galedi mawr. Ond mae'n braf nodi hefyd i'r gweithgor C21ain Ysgolion lleol gytuno bod galw am ddatblygiadau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg er mai cynrychioli ysgolion lleol roedd mwyafrif aelodau'r gweithgor.

Arweiniwyd y seremoni gan y Cynghorydd Rhianon Passmore, Aelod Cabinet Dros Addysg, a hynny ym mhresenoldeb y Prif Weinidog, Maer y Fwrdeistref, penaethiaid y ddwy ysgol. Yno hefyd roedd nifer o bobol sydd wedi rhoi cymaint dros addysg Gymraeg. Yn ogystal â swyddogion y sir roedd cyn-athrawon Ysgol Gymraeg Caerffili, cynrychiolwyr yr Ysgol Feithrin a gwleidyddion. Yn fwyaf enwedig y Cynghorydd Phil Bevan a ddaeth â'r maen i'r wal pan oedd ef yn Aelod Cabinet dros Addysg.

Mae'r cyfleusterau yn safle'r Gwyndy heb eu hail. Dyma'r math o amgylchedd a ddylai fod ar gael i bob plentyn ym myd addysg. Ond, mynd yn ei blaen mae'r frwydr dros addysg Gymraeg. Wrth i'n Hysgolion Cymraeg lenwi mae'n rhaid meddwl am ddarpariaeth ychwanegol yn enwedig yn ardal Rhisga, Cross Keys a chanol y sir. Ond, hefyd, mae anfonlondeb ynglŷn â chyflwr rhai o'r ysgolion sydd eisoes gennym, yn enwedig Ysgol Gymraeg Pengam, Cwm Gwyddon, Y Lawnt a Gilfach Fargod.



Amser i ddathlu, ie - ond nid amser i laesu dwylo chwaith!

Pennaeth Newydd

Ein pleser yw llongyfarch Rhian Dafydd, Rhisca, ar ei hapwyntiad yn bennaeth yr Ysgol Gyfun Gymraeg gyntaf yn ninas Casnewydd. Bydd Rhian yn dechrau ar ei dyletswyddau yn fuan gan fod yr ysgol uchelgeisiol hon, sydd yn mynd i gostio dros £90 miliwn, i fod i agor ym mis Medi. Yn anffodus, ymddengys na fydd yr adeiladau ar gyfer yr ysgol newydd ar gael erbyn mis Medi. Mae problemau technegol yn golygu bod y cynlluniau adeiladu ar ei hôl hi a



bydd yn rhaid lansio'r fenter bwysig hon yn un o ysgolion cynradd Cymraeg y ddinas.

Mae Rhian yn un o ddisgyblion cyntaf yr Uned Gymraeg a sefydlwyd yn ysgol gynradd Rhisca ganol chwedegau'r ganrif o'r blaen. Dechreuwyd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr adeilad hwnnw ddechrau'r chwe degau, a hynny ar gyfer plant gweithwyr a ddaeth i waith dur newydd Llanwern o ardaloedd traddodiadol Gymraeg. Ond cafodd criw o rieni yn Sir Fynwy y weledigaeth i ymestyn y ddarpariaeth hon ar gyfer disgyblion nad oeddynt o gartrefi Cymraeg. Cydnabuwyd gwaith y rhieni arloesol hyn a aeth ati i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Ac roedd rhieni Rhian, Jane a Vaughan Williams yno

ar flaen y gad gyda David a Mary Harries, Jeff a Lillian Jones, Bill a Sylvia Harries, Bronwen James ac eraill.

Wedi gadael yr uned gynradd teithiodd y criw bach dewr hwn o ddisgyblion bob cam i Rydfelen ym Mhontypridd i dderbyn eu haddysg Uwchradd. Oddi yno aeth Rhian i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth lle enillodd radd mewn Cemeg. Ac yna yn ôl i'w hardal enedigol i addysgu ei phwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Priododd ag Owain ap Dafydd, roedd y ddau wedi cwrdd tra'n athrawon Gwyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymini.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd Tachwedd 2015

Yn ein cyfarfod olaf am eleni cawsom gwmni Dr. Gethin Rhys Thomas o Brifysgol Abertawe, lle mae'n ddarlithydd swïoleg dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cafodd ei addysg ysgol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Gyfun Gymraeg Maes Yr Yrfa. Wedyn dilynodd gyrsiau biowyddorol ym Mhrifysgol Bangor. Yna ymlaen i Aberystwyth ar gyfer ymchwil ac ennill doethuriaeth. Ei arbenigedd yw anifeiliaid di-asgwrn-cefn a pharasitiaid.

Testun yr anerchiad oedd Cregyn Gleision Dŵr Croyw a'u Perthynas gyda'r Brithyll a'r Eog. Ar y cychwyn trafodwyd hanes y cregyn gleision hyn sy'n dra gwahanol i'r cregyn glas môr y bydd rhai ohonom yn eu blasu dan yr enw *moules marinières*. Mae'r misglod hyn yn byw mewn afonydd ucheldirol yng ngogledd-orllewin a de-ddwyrain Cymru ac yn gallu byw am 200 mlynedd dan amodau ffafriol. Dros gylch bywyd y misglod maent yn defnyddio (fel parasit) pysgod eogaidd, megis y brithyll ac eog, yn organeb lletyol (host).

Cawsom gipolwg ar ymchwil sy'n ymwneud ag effaith y cyfnod parasitig ar ffisioleg ac ymddygiad y pysgod wedi iddynt gael eu heintio. Yn wahanol i'r effaith mae nifer o barasitiaid eraill yn ei chael ar eu horganeb lletyol, byr dymor a chymedrol yw'r effeithiau ar y pysgodyn. Ceir bod heintiad gan fisglod yn achosi i'r pysgodyn ymddwyn yn fwy swil, gan gymryd mwy o amser cyn gadael y lloches. Mae'r newid yma yn ymddygiad y pysgod yn medru lleihau y risg ysglyfaethu, sy'n fantais i'r pysgodyn a'r misglod sydd ynghlwm iddo.

Rhyfeddod i ni yn y gynulleidfa oedd deall am 'gampau' ac arferion creaduriaid mor fach. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ionawr 18fed pan fyddwn yn clywed am wyddoniaeth bwyd. Dewch yn llu i brif adeilad y Brifysgol, mynedfa Parc Place.

(Chwiliwch ar y we am "*Misglod Perl Dŵr Croyw*" i gael rhagor o wybodaeth diddorol am y cregyn gleision hyn yn Gymraeg.)

Dr Neville Evans

Pen-blwydd Hapus yn 60 mlwydd oed!

Roedd y ciw i fynd i mewn i neuadd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni hyd y corridor a nôl i'r brif fynedfa. A'r achlysur? Ysgol y Lawnt, Rhymni, yn dathlu ei phen-blwydd yn 60.

A chafwyd dathlu yn ffurf sioe gerddorol o'r safon uchaf.



Ond cyn setlo i lawr i wylio'r sioe roedd gan y pum cant, neu fwy, yn y gynulleidfa gyfle i ddarllen rhaglen, a honno'n rhaglen gynhwysfawr iawn. Ynddi cafwyd llinell amser sefydlu Ysgol Gymraeg Rhymni. Aeth y llinell yn ôl i ganol pum degau'r ganrif o'r blaen i sôn am y cyndeidiau arloesol, sef Y Parchedig Rhys Bowen a'r bardd cenedlaethol Idris Davies. A nawr mae'r ysgol embryonig yn cynnig addysg i dros 200 o blant. A fyddai'r glewion a gafodd y weledigaeth yn yr oes o'r blaen wedi dychmygu'r fath gynnydd?

Ond nid dathlu pen-blwydd yr ysgol yn unig a wnaed nos Iau, y 10fed o Ragfyr. O nage! Roedd hwn hefyd yn ben-blwydd addysg Gymraeg yn yr ardal. Oherwydd hon oedd Ysgol Gymraeg gyntaf Cwm Rhymni a Sir Caerffili. Cyn hynny, hi hefyd oedd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yn Sir Fynwy ac, o ran hynny, yng Ngwent!

Roedd holl blant yr ysgol yno, yn perfformio sgript Dr Sian Rhiannon, un o gyn-ddisgyblion mwyaf adnabyddus yr ysgol. Gwnaed hynny yn raenus a chyda brwdfrydedd. Sian Rhiannon, hefyd, oedd wedi ysgrifennu rhan fwyaf o'r geiriau ar gyfer y caneuon a'i gŵr Euros fu wrthi'n cyfansoddi'r tonau. Roedd caneuon eraill hefyd o waith Alun Williams, cyn-bennaeth yr ysgol, Ashley Gittings a Gareth Lucas.

Wyth cân yn cyd-fynd ag wyth golygfa oedd sail y cynhyrchiad. Wrth ddechrau â'r Rhymni newydd yn 1850 aethpwyd ymlaen i ddangos sut le roedd y Lawnt. Oherwydd hen dŷ'r boneddigion yw cartref yr ysgol ac yn y sgets gwrthgyferbynnwyd eu bywyd bras nhw â bywyd llwm y gwithwrs a gyflogid ganddynt. Wedyn cofiwyd am droi'r adeilad yn ysgol uwchradd yn yr 1920au ar y thema "Oni heuir ni fedir". Roedd "*Oranges and Lemons*" yn dangos arferion chwarae'r plant ac, yn fwy arwyddocaol, oedd clywed y mamau'n siarad Cymraeg â'i gilydd ond yn troi i'r Saesneg â'u plant. Ac felly gwelwyd mai "Cilio mae'r iaith" yn y tridegau.



Yr ymgyrchu am Ysgol Gymraeg yn y pum degau oedd byrdwn "Mr Cadeirydd", sef y cynghorwyr hunanbwysig, a dyna ni wedyn yn dod i'r "Dathlu'r Chwe Deg" cyn cyflwyno "Paratoi am Nadolig 2015". Yna, daeth y plant lleiaf â'r sioe i'w phenllanw drwy ein hysbysu'n hyderus mai "Ni yw y gobaith" - gobaith cadw'r iaith a'r genedl yn fyw.

Am Noson! Noson i'w chofio gan bawb yn y cwm a'r Sir i ailgynnau'n brwdfrydedd dros addysg Gymraeg i'n plant.



Genedigaeth

Dyma aelod mwyaf newydd teulu Mrs Anne Evans, Bryn Siriol sef, Ellie Rae Mills-Evans. Ganwyd hi yn y Gwent ar ddiwrnod olaf 2015 er nad oedd hi fod i ymddangos tan 2016! Mae Gareth, mab Anne a Vicky wrth eu bodd a'u merch fach - a Nain hefyd wrth gwrs!!

Mae Gareth a Vicky yn byw ym Mharc Penrhos. Mae Gareth yn athro yn Ysgol Cwm Derwen a Vicky yn Rheolwraig Datblygu Gwasanaethau yn Ysbyty Felindre.

Sylwch fod Ellie am ddilyn ei mam gyda'r Mills-Evans fel cyfenw.



John Williams, Bargoed

Gŵr galluog, gweithgar oedd John Williams, Bargoed, a gŵr llawn hiwmor hefyd. Roedd wedi byw yng Nghwm Rhymni ar hyd ei oes a'i wreiddiau'n ddwfn yn ardal Llechryd (Rhymney Bridge) a'r Drenwydd. Treuliodd lawer o'i blentyndod gyda'i dadcu a'i famgu yn Graig Row, Llechryd. Byddai'n mynd yn gyson i gapel yr Annibynwyr, Y Graig, gerllaw hyd nes iddo symud ei aelodaeth i Moreia, Rhymni er mwyn cyd-addoli gyda'i wraig, Rhiannon (Nan) a'u meibion, Huw ac Alun.



Er iddo ddisgleirio fel disgybl yn Ysgol Lewis Pengam, ymadawodd yn ifanc, ac wedi cyfnod byr yn swyddfa gorsaf drenau Rhymni, gweithiodd yn ystod y rhyfel fel glöwr ym mhwl Pidwellt. Ar anogaeth y rheolwr, aeth i Ysgol Mwyngloddio De Cymru, Trefforest gan ennill cymwysterau da mewn peirianeg mwyngloddio. Arweiniodd hynny at yrfa lwyddiannus fel rheolwr pyllau glo ac uwch-reolwr dros dde-ddwyrain Cymru.

Ond roedd John hefyd yn ddyn teulu, ac roedd ei ofal dros bawb yn ddjarhebol. Roedd wrth ei fodd yng nghwmni plant, ac yn arbennig, ei wyresau, Bethan, Rhian, Carys Haf ac Eleri, a'u plant hwythau, Loti, Catrin, Ifan, Dafydd a Beca. Bu'n briod â Nan am 68 o flynyddoedd gan rannu eu cartref croesawgar yn Hillside Park yn hael.

Roedd hefyd yn ddyn cyhoeddus ac yn arweinydd naturiol. Gwasanaethodd fel ysgrifennydd a thrysorydd Moreia am dros ddeugain mlynedd gydag egni, dyfalbarhad a brwdfrydedd. Yn ogystal â'i effeithlonrwydd llwyr fel trefnydd, roedd hefyd yn cynnal a chadw'r adeilad, a byddai'n aml yn ei '*dyngarees*' ar ben ysgol, hyd yn oed yn ei wythdegau! Iddo ef yn bennaf mae'r diolch bod yr achos ym Moreia wedi goroesi cyhyd.

Er ei fod ar fin dathlu ei ben-blwydd yn 91 pan fu farw ychydig cyn y Nadolig, roedd yn ifanc ei ysbryd ac mor benderfynol ag erioed. Mae'r golled ar ei ôl yn enfawr.

Dyma'r englyn a gyfansoddwyd gan Anwen, nith-yng-nghyfraith John:

Rhoi'i einioes yn arweiniad – un a'i fyw'n
Fywyd o ymroddiad,
Gwir, a ffyddlon ei gariad
Fu, i'w deulu ac i'w Dad.

Dr Sian Rhiannon

Clecs y Castell!!

Llongyfarchiadau ! Llongyfarchiadau !

Yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd Aled - 1af, Owain - 3ydd, parau marchod - 1af a'r parau bechgyn yn 2ail.



Diolch yn fawr.

Llwyddodd y CRhA i gasglu £1900 oherwydd y Ffair Nadolig, gwerthiant cardiau Nadolig a'r noson ffilm. Diolch iddynt am eu gwaith diflino.

Presenoldeb 100% !

Cyflwynodd Mrs Nuttall 92 o dystysgrifau yn y gwasanaeth ysgol ar ddiwedd y tymor i'r disgyblion hynny sydd wedi llwyddo i fod yn yr ysgol bob dydd y tymor diwethaf. Am y tymor hwn rydym wedi llwyddo i guro ein targed presenoldeb o 92.5%. Gwych !



Canu swynol ac awyrgylch Nadoligaidd.

Canu gwych gan blant Blwyddyn Dau a'r Derbyn yn Llancaeath Fawr .




Chwilio am ddeinosoriaid!!

Fe fu plant bach y Meithrin a'r Derbyn ar ymweliad â'r amgueddfa gan geisio bod yn dditectifs bach er mwyn dysgu mwy am y creaduriaid yma oedd arfer crwydro'r ddaear. Roedd y plant wedi cael amser da ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr.



SESIYNAU THEATR I BLANT CHILDRENS WELSH MEDIUM THEATRE SESSIONS

YN SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON / AT BLACKWOOD MINERS' INSTITUTE



Sessiynau Theatr i blant.
Cyfle i actio, dawnsio, ysgrifennu a chanu.

Theatre sessions for children.
The chance to act, dance, write and sing
through the medium of Welsh.

Dydd Sadwrn Saturdays

3:00-3:45pm
Oedran / Ages 3-10
£3.00 yr wythnos / a week

3:00-4:00pm
Oedran / Ages 11-14
£3.50 yr wythnos / a week

Am rhagor o fanylion / for further details:

01443820913 **bethanjones@mentercaerffili.cymru**

Cefnogwyd gan / supported by:



CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY



#PethauBychain



Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi gweithgareddau'r Fenter dros gyfnod y Nadolig. Bu'n flwyddyn lwyddiannus. Dyma'r gweithgareddau: trefnu blodau, coginio, crefft Nadolig, ymweliad â Phenderyn, canu carolau a gwersi Ukulele.





UCAC yn dathlu pen-blwydd yn 75 mlwydd oed

Annwyl Olygydd Papur Bro Cwmni,

Sefydlwyd UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) yng Nghaerdydd yn 1940 gan grŵp o athrawon oedd yn gweld yr angen am undeb athrawon fyddai'n ymateb i anghenion penodol athrawon Cymru.

Ar 14 Rhagfyr 2015, bydd UCAC yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 75 mlwydd oed. Mae'r amcanion hynny a sefydlwyd yn y cyfarfod cyntaf dan arweiniad Gwyn M. Daniel, Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf UCAC, yn parhau i fod yn greiddiol i waith yr undeb hyd heddiw.

Dyma sydd wedi'i gofnodi yn y Llyfr Cofnodion:

"Daeth nifer dda o athrawon o bob gradd o'r Ysgolion Elfennol i'r Brifysgol ynghyd yn Nhŷ'r Cymry, Heol Gordon, Caerdydd, am 1.30 o'r gloch ddydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg 1940 i sefydlu'r Undeb."

Fel y dywed Rhodri Llwyd Morgan yn ei erthygl Sefydlu Archif UCAC 1940 - c.1980 (Amser Egwyl, Rhifyn 1, Rhagfyr 2000): *"Adeg ei sefydlu, roedd UCAC yn fudiad arloesol. UCAC oedd yr undeb llafur proffesiynol cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru a hynny gan Gymry a thros Gymru. Cynrychiolai gorff a fynnai ganolbwyntio meddyliau ar anghenion addysgol a diwylliannol Cymru."*

I gofnodi 75 mlynedd ers ei sefydlu, bydd UCAC yn lansio archif ddigidol ar-lein fydd yn cynnwys lluniau, dogfennau, poster a chyhoeddiadau amrywiol. Mae'r undeb yn galw ar aelodau presennol, cyn-aelodau, teuluoedd sylfaenwyr yr undeb, ac unigolion sydd â chysylltiad â'r undeb i fynd i dwrio am luniau, dogfennau neu effemera yn ymwneud â'r undeb. Bydd UCAC yn sganio ac yn cofnodi pob eitem ddaw i law mewn cydweithrediad â Chasgliad y Werin Cymru dros yr wythnosau nesaf, a gyda chaniatâd, yn cyhoeddi'r deunydd ar-lein. Mae'r undeb yn annog pobl i ddod i gysylltiad â hwy os oes ganddynt ddeunydd perthnasol: 01970 639 950 neu ucac@ucac.cymru.

Tybed a fyddai modd cynnwys erthygl fer yn rhifyn nesaf eich papur bro i dynnu sylw at hyn?

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Carys Lloyd ar 01970 639 950 neu carys@ucac.cymru.

Gyda diolch.

Cofion cynnes,

Elaine Edwards.

Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

Ein pleser yw cyflwyno'r cyntaf mewn cyfres o erthyglau wedi'u hysgrifennu gan ddysgwyr y sir. Mae pob un ar bwnc hanesyddol sy'n gyfle i ni gyd gofio agweddau'n hanes cenedlaethol. Dyma'r cyntaf gan Mags Gwenlan.

BETSI CADWALADR

Cafodd Betsi Cadwaladr ei geni ger y Bala, Gogledd Cymru ym 1789, un o un deg chwech o blant. Roedd hi'n byw ar fferm o'r enw Pen Rhiw gyda ei theulu hi. Roedd ei mam wedi marw pan oedd Betsi yn bump oed.

Ar y dechrau, gweithiodd hi yn lleol yn cadw tŷ, chwarae'r delyn a dysgu Saesneg.

Doedd hi ddim yn hapus yno a phan oedd hi'n bedair ar ddeg oed aeth hi i Lerpwl i weithio.


Daeth hi yn ôl i Gymru ond gadawodd hi yn sydyn i fynd i Lundain i fyw gyda'i chwaer ac osgoi priodas.

Tra oedd hi yn Llundain aeth hi i mewn i theatrau ysbytai llawer o weithiau. Gweithiodd fel cynorthwy-ydd a caeth hi gyfle i deithio'r byd. Aeth hi i Ffrainc ac ymwelodd hi â maes y gad lle cafodd llawer o filwyr eu hanafu ym Mrwydr Waterloo.

Daeth hi yn ôl i'r Bala pan oedd hi'n dri deg un oed a theithiodd am flynyddoedd ledled y byd gyda chapten llong.

Ymwelodd hi â De America, Affrica ac Awstralia. Cwrddodd hi â William Carey y cenhadwr, a'r Esgob Heber yr emynydd. Gweithiodd hi gyda salwch pan oedd hi'n teithio ar y llong. Dywedwyd iddi dderbyn cynigion priodas oddi wrth ugain o ddynion ar yr un pryd!

Daeth hi yn ôl i Brydain Fawr a phenderfynodd hyfforddi fel nyrs yn Ysbyty Guy's yn Llundain. Roedd Betsi Cadwaladr eisiau mynd i'r Crimea ar ôl iddi gael ei hyfforddi. Roedd hi wedi clywed am y milwyr o Brydain ym Mrwydr Alma 1854 a oedd wedi marw o typhoid ac anafiadau heintus.



Ward Ysbyty Scultari yn y Crimea

Gweithiodd Florence Nightingale yn Scutari ac aeth Betsi yno hefyd ond roedd Florence a Betsi yn dod o gefndiroedd gwahanol. Roedd yr ystod oedran rhyngddyn nhw yn fawr. Roedd Betsi Cadwaladr yn ei chwedegau a Florence Nightingale yn ei thridegau. Roedd Florence yn canolbwyntio ar reolau ond roedd Betsi yn ymwneud â chyflyrau iechyd. Gweithiodd Betsi yn galed i wella cyflyrau. Roedd Florence Nightingale wedi sylweddoli bod Betsi wedi gwneud gwahaniaeth yn y diwedd. Yn anffodus, aeth Betsi'n sal gyda cholera a'r dolur rhydd. Roedd rhaid iddi ddod yn ôl i Brydain lle bu farw hi pan oedd yn saith deg un oed yn 1860.

Claddwyd hi mewn bedd i'r tlodion ym

mynwent Parc Abney yn Llundain.

Roedd gwasanaeth coffa yn 2012 ar ôl iddi gael ei derbyn fel arwres nyrsus gan 'The Royal College of Nursing' yng Nghymru. Mae carreg goffa a gyflwynwyd er cof amdani ym mynwent Parc Abney nawr. Roedd yr athrawes Donna Mead o Gyfadran Iechyd, Chwaraeon a Hamdden Prifysgol Morgannwg yn gyfrifol am hon.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng ngogledd Cymru wedi'i henwi ar ei hôl. Dyma'r bwrdd iechyd mwya yng Nghymru ac mae'n atgoffa pawb bod Betsi Cadwaladr yn wraig hynod o ddewr.

Os yw'n anodd dod o hyd i dystiolaeth archeolegol am fodolaeth y Celtiaid yn ein cwm ni, nid oes problem gyda'r Rhufeiniaid. Mae olion eu ceirydd ym mhridd Gelligaer a Chaerffili, ac mae'r elfen 'caer' yn yr enwau hyn hefyd yn tystio i bresenoldeb y Rhufeiniaid. Daw caer o'r Lladin *castra*, sy'n golygu gwersyll milwrol, ac mae'n digwydd mewn enwau lleoedd o Gaerdydd i Gaergybi - ac am yr un rheswm. Daeth y Rhufeiniaid i Gymru fel milwyr, milwyr hynod o drefnus a disgybledig. Peiriant ymladd effeithiol a llwyddiannus dros ben oedd y fyddin Rufeinig. Dros y canrifoedd, ymestynnodd ffiniau tref fechan Rhufain i gynnwys yr Eidal gyfan, ac yna weddill Ewrop a'r gwledydd eraill sy'n amgylchynu Môr y Canoldir. *Mare nostrum* oedd hwnnw i'r Rhufeiniaid, sef 'ein môr ni'.

Nid oedd trigolion Prydain, yn fwy na'u cyfoeswyr ar dir mawr Ewrop, wedi gweld dim byd



tebyg i'r fyddin Rufeinig a'i threfn a'i disgyblaeth - a'u ceirydd. Heddiw, ychydig iawn sydd i'w weld o geirydd Rhufeinig ein cwm ni, er i'r archeolegwyr ddarganfod a chofnodi digon o dystiolaeth i'w bodolaeth wrth gloddio'r cae ger yr eglwys yng Ngelligaer a'r safle ger y castell yng Nghaerffili.

Ond stori wahanol iawn yw yng Nghaerllion, safle un o brif geirydd yr ymerodraeth Rufeinig. Yno fe welwch adfeilion y muriau cadarn a amgylchynai bob caer yn yr ymerodraeth Rufeinig. Roedd pob un ohonynt wedi ei hadeiladu ar yr union un patrwm o ogledd Affrica i'r Alban. Siâp hirsgwar

oedd i bob un, tebyg iawn i siâp cerdyn chwarae, a byddai'r adeiladau o'i mewn wedi eu gosod yn yr un patrwm ym mhob caer. Ble bynnag oedd llengfilwr yn yr ymerodraeth, byddai'n gwybod ar unwaith ble roedd pencadlys y gaer, ble roedd ei farics, ble roedd y storddy arfau.

Os ydych am gael blas ar fywyd y llengfilwyr hyn, ewch i Amgueddfa Caerllion i weld atgynhyrchiadau gwych o'r milwyr yn eu gwisg, a'r ystafell a grëwyd i roi argraff o ystafell barics. Mae olion y barics eu hun (a'u tai bach cymdeithasol) yn agos at yr Amgueddfa, a gerllaw mae olion y baddonau lle byddai'r llengfilwyr yn ymlacio, a'r amffitheatr lle byddant yn ymarfer. Yn yr amffitheatr hefyd byddent yn cael eu difyrru gyda'r sioeau gwaedlyd a chreulon sydd hefyd yn nodweddiadol o ddiwylliant Rhufain.

Ac os sefwch ar yr heol sydd yn rhedeg yn syth rhwng y barics a'r amffitheatr, gan wynebu'r Amgueddfa a'r eglwys, byddwch yn sefyll ar un o brif ffyrdd y gaer - y *Via Principia*. Yno y byddai'r llengfilwyr wedi sefyll hefyd, ond byddent yn wynebu pencadlys y gaer, a'r deml fechan yn ei chanol oedd yn gartref i'r eryr - symbol y lleng a symbol hefyd o awdurdod Rhufain dros ei hymerodraeth eang.

Y tro nesaf y byddwch yn cerdded heibio muriau allanol y castell yng Nghaerdydd, atgynhyrchiad trawiadol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cofiwch i furiau tebyg amgylchynu ceirydd Gelligaer a Chaerffili ddwy fil o flynyddoedd yn ôl a'n bod yn cerdded llwybrau'r Rhufeiniaid yn ein cwm ni.



ymwybyddiaeth (mindfulness)

**Teimlo'n gytbwys, tawel a gyda mwy o ffocws
Rheoli meddyliau ac emosiynau anodd
Dod yn fwy hyderus, bodlon a hapus**

Cwrs Blasu Cyfrwng Cymraeg

- **Dysgu** beth yw ymwybyddiaeth a dysgu sut gallwch ei ymarfer.
- **Profi'r** ymarferion myfyrdod ymwybyddiaeth.
- **Datblygu** technegau syml ymarferion ymwybyddiaeth y gallwch ddechrau defnyddio yn eich bywyd nawr.

**YN CYNNWYS
CD
DRWMGWSG
AM DDIM**

**Nos Lun 22ain Chwefror. 7–9pm. Safle'r Gwyndy Cwm Rhymni. CF83
3HG. £10**

Addas ar gyfer dechreuwyr, a phobl sydd wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth (Breathworks/MBSR/MBCT) ac sydd eisiau ailgydio yn eu hymarfer.

Chris Joseph, PhD – Hyfforddwr Ymwybyddiaeth
www.christopherjoseph.co.uk



Rhaid bwcio o flaen llaw

01443 802 832 morganroberts@mentercaerffili.cymru

mentercaerffili.cymru

Garddio, Chwarae, a Gweithio – cyfleoedd yn Siloh

Daw blwyddyn newydd a chyfleoedd a heriau newydd – tybed sawl un o ddarlennwyr ‘Cwm Ni’ sydd wedi llwyddo bod yn ffyddlon i’w haddunedau?! Mae yna gyfleoedd newydd yng Nghanolfan Gymunedol Gristnogol Siloh eleni hefyd – efallai y bydd her neu gyfle i rywun lleol yma, yng nghanol Ystrad Mynach?



Ym mis Chwefror a Mawrth, fe fyddwn yn bwrw ati i drawsnewid ein gardd flaen. Y cynllun yw creu ardal chwarae addas i blant bach, gyda meinciau newydd ar gyfer y cyhoedd, plannu blodau a llwyni a fydd yn denu gwenyn, a chynnwys elfennau o gelfyddyd ee mosaig. Petai gwirfoddolwyr eisiau helpu gyda’r cynllun, fe fydd offer, lluniaeth, a hyfforddiant ar gael trwy garedigrwydd staff ‘Groundworks’, a thrwy grantiau gan Cadw Cymru’n Daclus, Cyngor Cymunedol Gelligaer, a Chronfa Gweithio Eglwysi Cymru – diolch iddynt i gyd!

Dyn ni hefyd yn chwilio am weithwyr newydd – yn wirfoddolwyr, ac yn gyflogedig – gan fod ein grwpiau plantos bach ar foreau Mawrth ac Iau yn brysur iawn, a gan fod Sarah Johnson, a Hannah Barker bellach wedi gadael eu swyddi yn Siloh. Mae swydd y Cynorthwy-ydd, tridiau’r wythnos, yn cael ei hysbysebu ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru (www.EBCPCW.org.uk), ond mae modd hefyd ymgeisio am swydd 7 awr yr wythnos trwy fynegi diddordeb yn uniongyrchol i Tamsin, y Gweithiwr Cymunedol (ymholiadau@siloh.co.uk). Croesawn hefyd wirfoddolwyr o blith dysgwyr y Gymraeg a hoffai ymarfer yr iaith mewn cyd-destun helpu gyda gweithgareddau’r grŵp ‘Ti a Fi’ ar foreau Mawrth.


Gweithgareddau eraill i’r gymuned Gymraeg - mae ‘Saib@Siloh’ yn cwrdd am ryw awr yn fisol ar gyfer trafod Salm berthnasol, gweddio, a phaned, fel arfer ar foreau Llun cyntaf y mis am 10.30am (gweler y dyddiadur ar ww.siloh.co.uk), ac y mae grŵp dysgu Ukelele yn cwrdd bob nos Fawrth yn ystod tymor ysgol, o 6 i 8 yr hwyr – croeso i bawb!

Tamsin Llwyd Graves

Y Llun: Iard gefn Siloh - gyda mainc mosaig, gwyrddni, a phistyll dwr pŵer solar, ble gynt bu concrit yn unig- ar ôl gwaith gan dîm Groundworks y llynedd. Edrychwn ymlaen at eu cymorth eto wrth i ni drawsnewid ein gardd flaen yn y gwanwyn.

Posau’r Plant

Allwch chi weld beth yw’r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?
Ewch i dudalen Colofn y Dysgwyr i weld a oeddech yn iawn.



Allwch chi wneud synnwyr o’r geiriau sydd yn y llun? Wedyn ewch i Golofn y Dysgwyr.

aire faage rorfewch ffrags audigies ingem

Noson yng Nghwmni Hywel Gwynfryn

Am yr ail flwyddyn yn olynol cynhaliwyd noson ar y cyd gan Fenter Iaith Caerffili, Merched y Wawr a'r papur bro Cwmni yng nghlwb rygbi Caerffili. Yn ystod Rhagfyr 2014, Cennard Davies, Treorci oedd y gŵr gwadd a llynedd Hywel Gwynfryn a gadwodd y noson lwyddianus. Thema ei sgwrs fywiog oedd "Dyma fy mywyd, dyma fy nghân".

Cafwyd ei hanes ei fagwraeth yn Llangefni, prif dref Ynys Môn, a'i ddyddiau cynnar fel actor gyda'r BBC yng Nghymru a'i gyfnod fel myfyriwr yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd. Fe wnaeth ddwyn i go' y noson gofiadwy iddo yn y Borough Arms, Heol y Santes Fair yn Haf 1964. Noson y daeth i gysylltiad â Nan Davies, Geraint Stanley Jones a John Roberts Williams; noson a newidiodd ei yrfa. Yn lle mynd yn athro Drama yn Ysgol Mynydd Cynffig, ardal Pen-y-bont ar Ogwr ymunodd â'r BBC fel cyflwynydd arall ar y rhaglen 'Heddiw', am dri mis i ddechrau.

Mae'n dal i gael blas yn gweithio i'r sefydliad a'i gyfraniad aruthrol i'r Pethe yng Nghymru. Yn ei ffordd hwyliog ei hun adroddodd ei brofiadau a'i droeon trwstan a brofodd dros yr hanner can mlynedd o weithio i'r BBC. Mae gan Hywel hoffter mawr o ddysgu englynion ar ei gof. Yr englyn cynta a ddysgodd oedd 'Y Gwanwyn', englyn a ysgrifennodd Mr Stephen Edwards, ei athro yn Ysgol Gynradd "British", Llangefni,

Swyn hudol sain ehedydd – a glywn
Yn glir ar foreddydd;
Daear fach yn deor fydd,
A llwyni'n dai llawenydd.

Soniodd hefyd am englyn gafaelgar Twm Morys,

Mae twrw ei henw hi – yn fy mhen
Ac mae hynny'n profi
Bod y weiren heb dorri,
Y mae hi'n fom ynof fi.

Testun yr englyn oedd 'Hen Gariad', testun englyn cywaith Ymryson y Beirdd, ddydd Mawrth yr 20fed o Awst 1994 yng Nglyn Nedd. Fe weithiodd Twm Morys ddau englyn ar y testun ond un Llïon Elis Jones, 'Gweddill Cymru' a dde-wiswyd gan Gerallt.


Cafwyd gwybod gan Hywel hefyd beth ddigwyddodd i'w gopi o'r englyn 'Heddiw' gan Wil Ifan pan oedd yn fyw ar y teledu. Dyma'r englyn,

Heddiw yn wir, ni wyddom – y dydd
Y daw pryder arnom;
Ceisio, gobeithio tra bûm
Yw hanes pawb ohonom.

Yn Nhachwedd 2005 cyhoeddwyd hunangofiant Hywel, "Y Dyn Ei Hun", Rhif 28 'Cyfres y Cewri'. Rhif 27 yw "Crych Dros Dro" gan y newyddiadurwr diflewyn ar dafod Gwilym Owen a rhif 29 ydy "Ar Lwyfan Amser" gan yr actor J. O. Roberts. Tri o hogia Môn! Testun yr englyn cywaith yn Rownd Derfynol yr Ymryson ym Meifod y llynedd oedd "Hywel Gwynfryn". Dyma englyn deg marc Llŷn ac Eifionydd,

Iasau'r gwyll. Pob drws ar gau - ond yna
Mae'r dyn gyda'i wifrau
yn creu'i wefr ac yn sicrhau
i'w werin y sedd orau.

Ia'n wir "Pwy rydd i lawr wŷr mawr Môn?"



Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Henffych ddarllenwyr! Cadwgan ap Seisyll yma. Ydych chi'n cofio fy mhroblem fawr yn rhifyn mis Rhagfyr? Mae gwraig y Cadeirydd yn *anffyddlon* iddo fe – gyda Iestyn y Dysgwr! Ddylwn i ddweud wrth y Cadeirydd? Dyma beth yw *penbleth*!

Mae dau ohonoch chi wedi bod yn ddigon caredig i ysgrifennu ataf yn rhoi *gair o gyngor*. Diolch am eich llythrau. Yn anffodus, dych chi ddim yn *cytuno ar* beth ddylwn i wneud ac felly mae problem gen i *o hyd*! Ond diolch am gofio amdana i.....

Annwyl Cadwgan ap Seisyll,

Mae'r ateb i dy broblem yn glir – rhaid dweud y *gwir* wrth y Cadeirydd.

Mae e'n aelod o'r Orsedd – ***Y GWIR YN ERBYN Y BYD*** –

does dim *dewis* gyda ti.

Wrth gwrs efallai bydd y Cadeirydd yn drist ac yn *siomedig* – ond mae hynny'n well na chael *gwraig sy'n ei dwyllo*.

Bydd yn *ddewr* Cadwgan – *datgela dy gyfrinach*! Bydd y Cadeirydd yn ddiolchgar, Cofion,

Tomos Tomos, Betws Gwerful Goch

Annwyl Cadwgan,

Wel druan ohonoch chi! Problem fawr yn wir ond yn fy marn i dylech chi gadw'r gyfrinach. Ydych chi eisiau gwneud y Cadeirydd yn anhapus a *thorri ei briodas*? Ydych chi'n *HOLLOL* siwr bod Blodwen yn cael *affair* gyda Iestyn? Efallai mai dim ond ffrindiau ydyn nhw – neu ei bod nhw'n *ymarfer* ar gyfer drama. Fydd y Cadeirydd ddim yn hapus gyda chi am ddweud rhywbeth cas am ei wraig, cofiwch. *Taw piau hi*, Cadwgan. *Doeth pawb tra tawo*,

Blodeuwedd Jenkins, Llanllwch



Druan o Cadwgan ap Seisyll. Bydd rhaid iddo fe bendefynu cyn bo hir. Beth fydddech chi'n ei wneud ddarllenwyr?

yn anffyddlon : unfaithful	penbleth : a dilemma	gair o gyngor : a word of advice	dewis : choice
cytuno ar : to agree on	o hyd : still	y gwir : the truth	taw piau hi : mum's the word
y gwir yn erbyn y byd (rhan o seremoniau'r Orsedd) : the truth against the world			siomedig : disappointed
	gwraig sy'n ei dwyllo : a wife who deceives him		yn ddewr : brave
datgela dy gyfrinach : reveal your secret	torri ei briodas : break up his marriage		hollol : completely
ymarfer : rehearsing	doeth pawb tra tawo : everyone's wise while they're silent		

Atebion Posau'r Plant

aire - eira


faage - gaeaf


rorfewch - Chwefror

ffrags - sgarff

ingem - menig

audigies - esgidie





Nos Iau, Chwefror 3ydd 2016

Antoni Morgan

“Y Wenhwyseg”

Clwb Rygbi Penallta, Ystad Mynach

7:00

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr lefelau Uwch/Hyfedredd

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Ystradivarius

Pedwarawd Llinynnol Baróc ac Organ



Dydd Sadwrn, 27ain o Chwefror

2:30

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach

COLEG GWENT : Ysgolion Undydd.

Pob Cwrs am 5 awr ar ddydd Sadwrn

Lleoliad	Dyddiad Ffôn	
Ysgol Cwm Rhymni	06/02/16	01633612245
Canolfan Trefynwy	27/02/16	01600712822
Canolfan GlynEbwy	16/04/16	01495455300
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	21/05/16	01633647647

COLEG GWENT: Ysgolion Haf

30 awr ar 8 lefel Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol

01495 333710

Lleoliad	Diwrnod	Amser	Dyddiad
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	05-06/03/16
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	14-15/05/16
Campws Pontypŵl	Llun- Gwen	8.45-17.00	25-29/05/16
Llanbed	Gwen-Sul	9.00-17.00	01-03/07/16

Clwb Cerdded

Pob Dydd Mercher 10 -12



Chwefror 3ydd: Parc Cwm Darran
Cwrdd ym Maes Parcio'r Ganolfan
Ymwelwyr CF81 9NR

Chwefror 10fed: Tredomen i Drelewis
Cwrdd o flaen Swyddfeydd
Tŷ Penallta CF82 7PG

Gwisgwch yn addas
(Dillad Gwrth-ddŵr, esgidiau cerdded/
welis)

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Morgan Roberts - Swyddog Prosiect Llais
Menter Caerffili: 01443 802832
morganroberts@mentercaerffili.cymru

Clwb Llyfrau "Cwmni"

Caffi'r Hen Lyfrgell

Parc Morgan Jones,
Caerffili

2 o'r gloch

Dydd Llun, 29ain o Chwefror

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg
a dysgwyr profiadol.

Manylion gan Jan:

JanPenney@aol.com

02920889827

Côr Cwm Ni

YMARFER



Pob nos Fawrth

7:00

Ysgol Trelyn
(Pengam)

Llun y Mis



Yr Artist

Llun arall gan Lorna Tedstone yw hwn. Mae Lorna yn un o aelodau Grŵp Dydd Gwener, Grŵp sydd wedi bod yn arddangos yn gyson ar y tudalennau hyn.

Gwerthwyd nifer o'r lluniau a gyhoeddwyd gennym ond mae nifer eto ar gael. Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu llun, cysylltwch â'r Golygydd, ceir y manylion ar ail dudalen y papur.

Gwasanaethau yn y Gymraeg



TACSI GORSAF CAERFFILI



Cysylltwch â KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195
[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)
Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Llyfrau'r Enfys Cyf
Vikki Alexander
Ebost-Llyfrau'enfys.cymru
Wefan/website - www.rily.co.uk
Facebook/llyfrau'enfys
07970172754
Llyfrau Cymraeg a ddwyieithog arbennig i bob oedran!

Happy Snappers **Lluniau Llawen**
Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349